| CYNGOR SIR YNYS MON / CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **6 Chwefror 2025** |
| **TEITL ADRODDIAD:** | **Diweddariad ar Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Fel uchod** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol wedi'i sefydlu yng Nghymru, o ganlyniad i'r argymhelliad a wnaed gan Adolygiad Penn ar y Drefn Foesegol yng Nghymru.

1.2 Yn unol â chylch gorchwyl y Fforwm, dim ond Cadeirydd pob Pwyllgor Safonau sy'n mynychu cyfarfodydd y Fforwm.

## 2. CYFARFODYDD FFORWM

2.1 Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau, mae dau gyfarfod o'r Fforwm wedi eu cynnal. Mr Trefor Owen fynychodd y cyfarfod ar 24 Mehefin 2024, yn ei rôl fel Is-gadeirydd ar y pryd (gall dirprwy fynychu yn absenoldeb y Cadeirydd). Mynychodd Mr Owen y cyfarfod ar 27 Ionawr 2025 yn ei rôl fel Cadeirydd.

2.2 Rhannwyd nodiadau'r Is-Gadeirydd o gyfarfod y Fforwm ym mis Mehefin 2024 gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau drwy e-bost ar 28 Mehefin 2024.

2.3 Gwneir trefniadau i rannu nodiadau'r Cadeirydd o gyfarfod 27 Ionawr 2025 gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau.

2.4 Mae cyfarfod nesaf y Fforwm wedi'i drefnu ar 23 Mehefin 2025.

## 3. DOGFENNAETH Y FFORWM

3.1 Mae'r Fforwm wedi cytuno, mewn perthynas â nodiadau'r Fforwm - *"gall y nodiadau gael eu dosbarthu i Bwyllgorau Safonau, ar yr amod na ellid adnabod unrhyw achwynydd neu gynghorydd unigol y cwynwyd amdano. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn/ar ôl pob cyfarfod."*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 I'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn.